CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD Iau, 28 Ionawr 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: P.M. Hughes (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 2.00 - 2.10 yp

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 17 IONAWR 2020

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2020 yn gofnod cywir.

3. Y DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar y gweithgaredd cuddwylio yr oedd yr Awdurdod wedi ymgymryd ag ef yn 2020, ynghyd â'r gweithdrefnau ysgrifenedig ynghylch y dull o gynnal cuddwylio gan staff a defnyddio cuddwylio o'r fath. Nodwyd hefyd bod dogfen gweithdrefnau'r Cyngor wedi'i hadolygu a bod newidiadau wedi'u gwneud i'r adran yn ymwneud â rhyng-gipio data cyfathrebu i adlewyrchu newidiadau i'r broses ymgeisio a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig;
- Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol;
- Rhyng-gipio Data Cyfathrebu;
- Cuddwylio Anawdurdodedig;
- Adroddiadau Ystadegol;
- Dogfen Gweithdrefnau Cuddwylio.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol nad oedd unrhyw awdurdodiadau wedi'u cyflwyno dan y Ddeddf hon yn ystod 2020 ynghylch y dull o gynnal gwyliadwriaeth gyfeiriedig, ffynonellau cuddwybodaeth ddynol a rhyng-gipio data cyfathrebu.

PENDERFYNWYD:

3.1 nodi'r gweithgaredd cuddwylio yr oedd yr Awdurdod wedi ymgymryd ag ef yn 2020;

3.2 cymeradwyo'r newidiadau i'r Ddogfen Gweithdrefnau Gwyliadwriaeth Gorfforaethol ynghylch y dull o gynnal gwyliadwriaeth ar gyfer 2021.

_____ _____

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL **DYDDIAD**